Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer goruchwylwyr yn y diwydiant glanhau. Fe'i cynlluniwyd i ddangos cymhwysedd wrth gyfrannu at economi lanhau a chylchol gynaliadwy er mwyn cefnogi arferion da wrth ymgymryd â gweithgareddau.

Mae'r safon hon yn ymwneud â chymryd camau i leihau niwed i'r amgylchedd ac aflonyddu ar gynefinoedd. Mae'n mynnu bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn unol â gweithdrefnau ac arferion cymeradwy eich sefydliad, ac esbonio'r rhain i'r staff ac awgrymu gwelliannau lle gellir eu gwneud.

Mae polisïau a gofynion deddfwriaethol perthnasol i'w hystyried yn cynnwys y rhai ar gyfer:

1. iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd
2. amgylchedd
3. rheoli ansawdd gweithredol
4. rheoleiddio
5. statudol
6. polisïau sefydliadol
7. cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol
8. asesiadau risg.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn modd sy'n lleihau llygredd ac aflonyddwch ffisegol
2. sicrhau bod staff yn defnyddio deunyddiau ailgylchadwy, peiriannau statig a symudol a fydd yn lleihau llygredd ac aflonyddwch ffisegol
3. sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â pholisïau a deddfwriaeth berthnasol
4. cydnabod achosion o aflonyddwch ffisegol a chymryd y camau priodol i ddileu'r rhain
5. nodi gwelliannau i weithdrefnau ac arferion eich sefydliad o ran arferion da amgylcheddol a chymryd y camau priodol
6. sicrhau bod staff yn cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn ddiogel ac yn unol â gweithdrefnau ac arferion cymeradwy perthnasol
7. cyfrannu at gynaliadwyedd ac economi gylchol ar gyfer arbed ynni, dŵr, defnyddio adnoddau a chyfarpar i leihau niwed amgylcheddol a gwastraff yn ystod gweithgareddau glanhau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y dulliau perthnasol o leihau llygredd ac aflonyddwch ffisegol i'r amgylchedd wrth wneud gwaith
2. y deunyddiau a'r cyfarpar mwyaf addas i'w defnyddio yn dibynnu ar natur y gwaith, a'i effaith bosibl ar yr amgylchedd
3. y ffyrdd y dylid defnyddio cyfarpar a deunyddiau er mwyn lleihau niwed amgylcheddol
4. y gofynion gweithredol a deddfwriaethol o ran lleihau'r niwed amgylcheddol
5. sut i nodi gwelliannau i weithdrefnau ac arferion eich sefydliad o ran arferion da amgylcheddol
6. y mathau o niwed sy'n gallu cael ei achosi, yr effaith y gall y rhain ei chael ar yr amgylchedd a'r camau i'w cymryd i wneud yn iawn amdanynt
7. y dulliau perthnasol o waredu gwastraff fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd
8. diben economi gylchol fel bod cyn lleied o niwed amgylcheddol a gwastraff â phosibl

Cyfrannu at economi lanhau a chylchol gynaliadwy

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTC311
Galwedigaethau perthnasol	Menter manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaeth; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Glanhau Elfennol
Cyfres/Set	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi
Geiriau Allweddol	Cynnal, cynaliadwy, amgylchedd, glanhau, gweithgareddau, lleihau, niwed, cynefinoedd, gweithdrefnau, arferion, gwelliannau